Mentora Amlieithog
Multilingual Mentoring

Pearson
Edexcel



# **Mwy na geiriau:** Straeon Bywyd Go Iawn

1. **Beth yw dy enw a pha gwrs wyt ti'n astudio?**
   Mitantsoa Solofoniary, Ieithyddiaeth Gymhwysol ar gyfer TEFL.

2. **Pa ieithoedd wyt ti'n siarad, sydd o ddiddordeb i ti, neu rwyt ti'n ymwneud â nhw mewn unrhyw ffordd?**
   Malagasy yw fy iaith frodorol ond dwi hefyd yn siarad Ffrangeg a Saesneg. Ar hyn o bryd dwi'n dysgu Pwyleg gan fod fy nghariad yn dod o Wlad Pwyl a dwi eisiau deall ei ddiwylliant yn well. Mae gen i ddiddordeb mawr yn iaith Corea hefyd.

3. **Ar ba adeg yn dy fywyd sylweddolaist ti pa mor bwysig a pha mor werthfawr yw gwybod mwy nag un iaith?**
   Ar ôl graddio, pan oeddwn i'n chwilio am swydd. Yn sydyn, fe wnaeth llawer o ddrysau/cyfleoedd agor i mi oherwydd yr ieithoedd tramor oedd gen i.

4. **Sut mae gallu siarad mwy nag un iaith wedi dy helpu yn dy fywyd personol?**
   Mae wedi fy helpu i wneud llawer o ffrindiau a gwella fy nealltwriaeth o ddiwylliannau gwahanol. Bydda i bob amser yn cael pobl yn dweud 'waw' ble bynnag dwi'n mynd ac yn cyfarfod pobl.

5. **Sut mae gwybod mwy nag un iaith wedi dy helpu, neu sut bydd yn helpu, yn dy fywyd proffesiynol?**
   Fyddwn i ddim wedi bod yma yn y DU yn gwneud fy ngradd Meistr heb y Saesneg, a fyddwn i ddim wedi cael fy swydd flaenorol hebddi 'chwaith. Drwy weithio i sefydliad rhyngwladol, enillais lawer o sgiliau proffesiynol ac roedd yn wahanol iawn i beth oeddwn i wedi arfer ei wneud. Mae'r sgiliau hyn yn dal i fy helpu nawr. Dwi mor ddiolchgar.

www.mflmentoring.co.uk
**Trydar:** @MFLMentoring
**Instagram:** @MFLMentoring
**LinkedIn:** Mentora ITM

I gael mwy o wybodaeth, ewch i:
**go.pearson.com/MFLGCSE24**

6. **Beth wyt ti'n gobeithio ei wneud fel gyrfa/gyrfaoedd yn y dyfodol?**
   Dwi i eisiau hyfforddi athrawon yn ôl yn fy ngwlad enedigol a dysgu Saesneg yn rhyngwladol.

7. **O ran dysgu ieithoedd, beth sydd wedi cael y dylanwad mwyaf ar dy fywyd hyd yn hyn?**
   Gallaf ddarllen llyfrau yn Saesneg ac mae hynny'n cael effaith mor fawr.

8. **Beth fu'r fantais fwyaf annisgwyl o ddysgu ieithoedd yn ystod dy fywyd?**
   Amldasgio a gallu addasu i sefyllfaoedd newydd.

9. **Beth fu'r agwedd fwyaf heriol am ddysgu ieithoedd yn ystod dy fywyd?**
   Dod o hyd i lawer o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.

10. **Beth yw dy hoff air neu ymadrodd mewn iaith heblaw Saesneg?**
    *Nabi* (glöyn byw yn iaith Corea) – dwi'n ei hoffi gan ei fod yn symbol o lawenydd a bywyd llawn ffyniant.

11. **Hoffet ti siarad unrhyw ieithoedd eraill? Os felly, beth ydyn nhw a pham hoffet ti eu siarad?**
    Mandarin oherwydd dwi'n teimlo ei bod yn iaith sy'n tyfu, a Sbaeneg oherwydd bydd hi'n ddefnyddiol iawn i deithio yn Ne America.

12. **Sut mae bod yn Fentor ITM wedi cefnogi dy daith gydag ieithoedd?**
    Mae wedi dysgu llawer o bethau i mi am ieithoedd. Dwi'n gweld ieithoedd mewn ffordd ychydig yn wahanol ac mae hynny'n adeiladol iawn.

13. **Pe gallet ti roi un darn o gyngor i fyfyrwyr sy'n meddwl am ddysgu iaith arall, beth fyddai hynny?**
Mwynhewch bob rhan o'r profiad a chofiwch fod gwneud camgymeriadau'n rhan o'r dysgu. Dysgwch sut i wneud yn fawr ohonyn nhw a symud ymlaen. Cofiwch – mae dwyieithrwydd yn fantais a dwyieithrwydd yw'r norm 😊.

